***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 3242

# Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2014

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2014.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Rhagfyr 2014, ond, yn ddarostyngedig i baragraffau (3) i (5), mae'n cael effaith o 1 Gorffennaf 2013 ymlaen(**1**).

(3) Mae paragraff 12(c) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn, a chymaint o erthygl 2 ag sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth honno, yn cael effaith o 25 Medi 2009 ymlaen.

(4) Mae darpariaethau canlynol yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, a chymaint o erthygl 2 ag sy'n ymwneud â'r darpariaethau hynny, yn cael effaith o 11 Ebrill 2011 ymlaen—

(a) paragraff 2(f)(ii),(iii) a (iv); a

(b) paragraff 2(g) (sy'n mewnosod rheol B5C (budd pensiwn ychwanegol)), i'r graddau y mae'n ymwneud â'r budd pensiwn ychwanegol o dan baragraff (3) o reol B5C, a'r diffiniadau o "beginning date" a "following relevant tax year" ym mharagraff (6) o reol B5C.

(5) Mae darpariaethau canlynol yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, a chymaint o erthygl 2 ag sy'n ymwneud â'r darpariaethau hynny, yn cael effaith o 1 Ebrill 2014—

(a) paragraff 15(f), (k) ac (l); a

(b) paragraff 20(b).

(6) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "awdurdod tân ac achub perthnasol" ("*relevant fire and rescue authority*") mewn perthynas â pherson sydd â hawlogaeth i gael pensiwn neu berson y mae pensiwn yn daladwy iddo, yw—

(a) yr awdurdod tân ac achub a fu'n cyflogi'r person hwnnw felly, ddiwethaf; neu

(b) os peidiodd cyflogaeth y person hwnnw cyn 1 Hydref 2004, yr awdurdod tân ac achub a etifeddodd rwymedigaethau'r awdurdod tân a fu'n cyflogi'r person hwnnw ddiwethaf;

ystyr "y Cynllun" ("*the Scheme*") yw Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) fel y'i pennir yn Atodlen 2 i Orchymyn 1992; ac

ystyr "Gorchymyn 1992" ("*the 1992 Order*") yw Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992(**2**).

(**1**) Rhoddir pŵer i roi effaith yn ôl-weithredol gan adran 12(1) o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 (p. 11).
(**2**) O.S. 1992/129; diwygiwyd gan O.S.au 1997/2309 a 2851, 1998/1010, 2001/3649 a 3691, 2004/1912 a 2918 (Cy. 257), 2006/1672 (Cy. 160), 2007/1074 (Cy. 112), 2009/1226 (Cy. 109), 2010/234, 2012/974 (Cy. 128), 2013/736 (Cy. 88) a 2014/522 (Cy. 63).

**Diwygio Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992**

**2.** Mae Atodlen 2 i Orchymyn 1992 (y pennir ynddi Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru)) wedi ei diwygio yn unol â'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Darpariaethau trosiannol**

**3.**—(1) Nid yw'r diwygiadau a wneir gan baragraff 14(a)(iv) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn, i'r graddau y maent yn ymwneud â mewnosod paragraff (9) yn rheol LA2 (taliadau arbennig a throsglwyddiadau i Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân), yn cael effaith mewn perthynas â pherson sydd â hawl i gael taliadau pensiwn o dan y Cynllun ac a gyflogir gan unrhyw awdurdod tân ac achub, mewn cyflogaeth a ymgymerwyd gan y person hwnnw ar ddyddiad cynharach nag 1 Gorffennaf 2013.

(2) Mewn achos y mae paragraff (1) yn gymwys iddo, mae rheol LA2 o'r Cynllun, yn y ffurf yr oedd yn bodoli yn union cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, yn parhau i gael effaith mewn perthynas â pherson o'r fath.

**4.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i ddiwygiad a wneir gan erthygl 2 a'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn sy'n gymwys mewn perthynas â'r pensiynau a delir neu a ddaw'n daladwy o dan y Cynllun i bersonau neu mewn perthynas â phersonau sydd, ar ôl gwasanaethu mewn cyflogaeth y mae gwasanaeth ynddi'n cymhwyso personau i gyfranogi yn y buddion y mae'r Cynllun yn darparu ar eu cyfer, wedi peidio â gwasanaethu yn y gyflogaeth honno cyn 1 Gorffennaf 2013 (pa un a ydynt wedi ailddechrau gwasanaethu felly yn ddiweddarach ai peidio), neu a fu farw cyn y dyddiad hwnnw.

(2) Caiff unrhyw berson, a osodir mewn gwaeth safle nag y byddai wedi bod ynddo pe na bai diwygiad y mae'r erthygl hon yn gymwys iddo wedi ei wneud mewn perthynas ag unrhyw bensiwn a delir neu a allai ddod yn daladwy i'r person hwnnw, wneud dewisiad i'r perwyl na fydd diwygiad yn gymwys mewn perthynas â'r pensiwn hwnnw.

(3) Rhaid i unrhyw ddewisiad o'r fath gael ei wneud drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod tân ac achub perthnasol o fewn y cyfnod o 12 mis sy'n cychwyn gyda'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, un o Weinidogion Cymru

8 Rhagfyr 2014